CYNGOR CYMUNED PENMYNYDD

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FERCHER
1 Tachwedd 2017, NEUADD PENMYNYDD 7.30yh

YN BRESENNOL : Cyng D I Roberts, A Mummery, E Williams, S Hughes, G Owen (Clerc)	
YMDDIHEURIADAU: Cyng A Evans, N Jones, R Williams (Cyngor Sir), M Jones (Cyngor Sir)	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng D I Roberts.
2	**DATGAN DIDDORDEB** – Dim
3	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 4 Hydref 2017. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir.
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**Tyllau yn y ffordd tu ol i Bryn ffynnon** - Mae Cyng A Mummery wedi trafod y mater gyda Dafydd Rowlands, Cyngor Sir ac yn disgwyl mwy o wybodaeth
4.2	**Canolfan Penmynydd** - Dywedodd y Cadeirydd bydd y Ganolfan yn cael ei glanhau 11 Tachwedd. Cytunwyd i'r Cadeirydd gwario ar sadolin, paent a pethau at glanhau a twtio. Hefyd, mae angen bulb newydd yn y lamp stryd gyferbyn a'r Ganolfan. Bydd y Clerc yn dod a'r mater at sylw y Cyngor Sir.
5	**Gohebiaeth Cyngor Ynys Mon**
	Cynllunio
5.1	41C103W/MIN Man newidiadau i gynllun sydd wedi ei ganiatau yn flaenorol o dan caniatad cynllunio 41C103J er mwyn ychwanegu ffenestri ac diwygio y drysau ac ffenestri o pren i UPVC yn Ty Gwyn Uchaf, Penmynydd - dim sylwadau
5.2	41C101D Cais llawn i godi sied amaethyddol ar gyfer cadw anifeiliaid ar dir yn Caeau, Star - dim sylwadau
6	**Gohebiaeth Ychwanegol**
	Dim
7	**MATERION ARIANNOL**
	Cytunwyd i dalu:
7.1	Flogas £89.10
7.2	Swyddfa Archwilio Cymru £163.35
8	**MATERION ERAILL**
8.1	Adolygiad o Gofrestrau Diddordebau Aelodau Cynghorau Tref a Chymuned. - Trafodwyd a derbyniwyd adolygiad y Pwyllgor Safonnau. Hefyd, derbyniwyd y model Côd Ymddygiad. Mae y Clerc ar hyn o bryd yn cadw rhestr (papur) o datganiadau o diddordeb a bydd o hyn ymlaen yn cyhoeddi'r gofrestr ar y wefan.
8.2	Hyfforddinat ar y Côd Ymddygiad (gwahoddiad gan y Cyngor Sir). Bydd y Cadeirydd Cyng D I Roberts yn mynychu'r sesiwn 15.11.17
	Llofnod **Cadeirydd** **03.01.18**

8.3	Ysgol Llanfairpwll. Dywedodd Cyng A Mummery bod Cyng Gareth Cemlyn Jones wedi cynnig cynrychioli Cynghorau Llanfairpwll a Penmynydd ar Bwrdd Llywodraethwyr Ysgol Llanfairpwll.
8.4	Tai Elusendai Penmynydd. Trafodwyd cwyn unwaith eto am cyflwr y safle. Mae'r coed angen ei dorri, mae llygod mawr o gwmpas y lle a mae'r trydan wedi datgysylltu. Cynigodd Cyng A Mummery cael hyd i gyswllt i'r Clerc
8.5	Soniodd Cyng S Hughes am bws yn parcio ar y gongl wrth ymyl y Glyn, Penmynydd ac yn creu problemau i moduron yn troi. Bydd y Clerc yn dod a'r mater at sylw y Cyngor Sir.
9	**Eitemau ar gyfer yr agenda nesaf**
	Llofnod **Cadeirydd** **03.01.18**